# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 23.01.12

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Ieuan Roberts, W.Gareth Roberts

**Hefyd yn bresennol:** Geraint B. Edwards (Cyfreithiwr), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), Euron Thomas (Uwch Swyddog Iechyd Amgylchedd), Alun Evans (Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd), Dorothy Williams (Swyddog Diogelwch Bwyd) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

## 1. CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO – CAEAU FFERM CRUGAN, LLANBEDROG

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:**

**Ymgeisydd:** Mr Euron Thomas, Uwch Swyddog Iechyd Amgylchedd, Cyngor Gwynedd

**Eraill ar ran y Cyngor:** Ms Dorothy Williams, Swyddog Diogelwch Bwyd, Gwarchod y Cyhoedd

**Ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

**Ar ran Caeau Fferm Crugan, Llanbedrog:** Mr Mark Durston (Deilydd y drwydded), Ms Emma Hartley a'r Cynghorydd R.H. Wyn Williams (aelod lleol deilydd y drwydded)

**Cyngor Cymuned Llanbedrog:** Y Cynghorydd W. Penri Jones

**Ar ran y trigolion lleol:** Mr Anthony Tully a Mr Stuart Wyn-Evans

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais gan Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd i adolygu trwydded eiddo Caeau Fferm Crugan, Llanbedrog ynghyd â'r traeth o flaen y caeau. Gofynnir am ddiddymu'r hawl i gael cerddoriaeth fyw neu wedi ei recordio ynghyd â'r modd i wneud cerddoriaeth.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd sylwadau ar y cais gan yr Heddlu ac Uned Iechyd a Diogelwch, Gwarchod y Cyhoedd. Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais gan Gyngor Cymuned Llanbedrog ond derbyniwyd gwrthwynebiadau gan rhai o drigolion y tai cyfagos.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

ii. Gwahoddwyd aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

iii. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

iv. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

v Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu Hachos

Ar ran Adran Gwarchod y Cyhoedd, hysbysodd yr Uwch Swyddog Iechyd Amgylchedd y gwneir yr adolygiad hwn yn dilyn Gŵyl Glass Butter Beach a gynhaliwyd ar gaeau Fferm Crugan (ochr y môr) gan gynnwys glan y môr o flaen caeau Crugan o 1-4 Medi 2011. Disgrifir yr ŵyl fel un deuluol sy'n cyfuno cerddoriaeth gyda chwaraeon sy'n cynnwys syrffio, BMX, ôl-llongfyrddio a sgrialfyrddio sy'n rhoddi cyfle i'r rhai hynny sy'n mynychu i gymryd rhan dan oruchwyliaeth hyfforddwyr proffesiynol.

Nododd y cyflwynwyd cais am drwydded eiddo ar gyfer yr ŵyl yn Mawrth 2011 ac 'roedd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer adloniant rheoledig yn cynnwys dramau, ffilmiau, cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi ei recordio, perfformiadau dawns yn ogystal â darpariaeth o gyfleusterau adloniant ar gyfer cyfansoddi cerddoriaeth a dawnsio. 'Roedd y cais hefyd yn cynnwys cyflenwi alcohol a lluniaeth hwyr. Yn dilyn derbyn y cais, cynhaliwyd trafodaethau gyda'r ymgeisydd parthed y ddarpariaeth adloniant rheoledig pryd y penderfynwyd peidio â gwrthwynebu'r cais ar y sail bod amodau penodol ar reolaeth adloniant rheoledig yn cael eu cytuno a'i gosod ar y drwydded a chytunodd yr ymgeisydd â'r amodau rheoli sŵn. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Grŵp Diogelwch Digwyddiadau yn Awst 2011 gyda threfnwyr yr ŵyl yn bresennol ac yn y cyfarfod hwnnw cyflwynodd y trefnwyr gopiau o gynllun iechyd a diogelwch ar gyfer yr ŵyl yn ogystal â chynllun safle a ddangosai bod yr ŵyl yn cynnwys dau prif lwyfan, un awyr agored a'r llall wedi ei gynnwys mewn pabell gyda'u cefnau i'r môr ac felly'n cyfeirio eu sŵn i mewn i'r tir. Cyfeiriodd at ddatganiad yn y cynllun iechyd a diogelwch parthed y dull o leihau ardrawiad sŵn. Fodd bynnag, nid yw'r datganiad yn wir gan nad oedd unrhyw gysylltiad wedi ei wneud cyn y Grŵp Diogelwch Digwyddiadau ynglyn â'r cynllun safle a'r dull o leihau ardrawiad sŵn ar drigolion lleol. Datganwyd pryder bod y wybodaeth manwl ar gyfer y digwyddiad wedi cyrraedd yn hwyr ac oherwydd y cyfeiriad 'roedd y prif lwyfannau'n gorwedd ar safle'r ŵyl, 'roedd o'r farn y byddai'r trefnwyr yn cael trafferth i gydymffurfio â'r amodau rheoli a osodwyd ar y drwydded eiddo. Yn dilyn y cyfarfod, cysylltwyd â'r trefnwyr yn cadarnhau'r pryderon ac yn argymell yn gryf iddynt newid cynllun safle'r ŵyl fel y byddai'r prif lwyfannau'n taflu'r sŵn allan tuag at y môr yn hytrach nag i mewn i'r tir a thuag at dai preswyl cyfagos. Derbyniwyd ymateb gan y trefnwyr yn ymddiheuro am y diffyg ymgynghori ar y cynllun safle ac y byddai newid y cynllun safle mor hwyr yn y dydd yn arwain at orfod canslo'r ŵyl. Cynhaliwyd cyfarfod ar y safle gyda'r trefnwyr pryd yr eglurwyd nad oedd yn bosibl newid onglau'r prif lwyfannau mor hwyr yn y dydd oherwydd bod pamffledi ar gyfer yr ŵyl a oedd yn cynnwys cynllun safle eisoes wedi eu printio. O ganlyniad, rhoddwyd rhybudd unwaith eto ar lafar i'r trefnwyr y byddent yn cael trafferth i fodloni'r amodau rheoli sŵn ac fe'i rhybuddiwyd hefyd y gallai'r Cyngor fonitro sŵn yr ŵyl ar gyfer asesu os oeddynt yn cydymffurfio â'r amodau sŵn o eiddo preswyl sensitif i sŵn yng nghyffiniau safle'r ŵyl. Rhoddwyd rhybudd terfynol hefyd i'r trefnwyr os y derbynnir tystiolaeth bod amodau sŵn yn cael eu torri, y byddai camau ffurfiol ar ffurf erlyniad neu adolygiad o'r drwydded eiddo yn bosibilrwydd.

Rhoddodd fanylion am yr offer sŵn a ddefnyddiwyd i fonitro sŵn o'r ŵyl ynghyd â'r canlyniadau. Parthed y tor-amod o'r amodau rheoli sŵn, nododd bod lefel y sŵn adloniant a fesurwyd o Bwthyn Crugan yn sylweddol. Dengys o sawl recordiad sŵn a wnaed yn ystod 2 a 3 Medi 2011 mai sŵn o'r ŵyl oedd yn dominyddu yn ystod y cyfnod monitro. Rhoddodd fanylion am y cyfnodau y torrwyd yr amodau rheoli sŵn.

Cyfeiriodd hefyd ei bod yn ran o unrhyw gais am drwydded eiddo i'r ymgeisydd amlinellu camau y byddent yn gymryd i sicrhau eu bod yn cyd-fynd ac yn hybu'r pedwar nod trwyddedu. Un nod trwyddedu yw sicrhau bod plant yn cael eu gwarchod rhag niwed. Recordiwyd samplau sŵn rhwng 22.35 a 23.05 ar nos Wener, 2 Medi 2011 ac 'roedd hyn yn adeg lle allai plant dan 16 oed fod yn bresennol yn yr ŵyl, yn unol â'r polisi oedran, ac felly 'roedd potensial iddynt gael eu hamlygu i'r iaith aflan a ffiaidd a ddefnyddiwyd ac nid yw hyn yn cydfynd â'r nod trwyddedu i warchod plant rhag niwed. Tynnodd sylw bod un o'r artistiaid wedi defnyddio iaith anweddus gyda chyfeiriadau cryf at ryw a chyffuriau.

Nododd bod yr adran wedi gweithio gyda deilydd y drwydded cyn yr ŵyl i geisio datrys pryderon sŵn yr adloniant y rhagwelwyd. Er gwaethaf y rhybuddion a roddwyd i ddeilydd y drwydded parthed y potensial i dorri amodau rheoli sŵn sy'n erbyn y drwydded, cafwyd tor-amod sylweddol wrth gynnal yr ŵyl. 'Roedd o'r farn y cynhaliwyd yr ŵyl mewn modd nad oedd yn cydfynd â dau nod trwyddedu, sef arbed niwsans cyhoeddus ac arbed plant rhag niwed. Gofynnodd i'r is-bwyllgor ystyried tynnu'r elfennau o adloniant rheoledig a darpariaeth adnoddau adloniant gyda'r potensial o greu niwsans neu dramgwydd o'r drwydded ac yn benodol –
a) Cerddoriaeth fyw.
b) Cerddoriaeth wedi ei recordio
c) Cynhyrchu cerddoriaeth

Nododd ymhellach, os y caniateir y newidiadau uchod gan yr is-bwyllgor, fe allai arwain at orfod canslo'r ŵyl yn y dyfodol.

Ymatebodd deilydd y drwydded i rai o'r sylwadau uchod fel a ganlyn –

- Y dechreuodd drefnu digwyddiadau cerddorol a chwaraeon yn Absersoch yn 1998 ar lefel fechan i ddechrau cyn ymgymryd â'r gwaith o drefnu Gŵyl Wakestock. Cadarnhaodd ei fod yn cydweithio gydag adrannau perthnasol o'r Cyngor pan drefnir y gwahanol ddigwyddiadau hyn ac y ceisir cydymffurfio â'r rheolau/amodau a osodir.
- Os y penderfynir tynnu'r elfennau o adloniant rheoledig a.y. o'r drwydded yna ni fyddai dyfodol i'r ŵyl a byddai'n rhaid iddo ystyried ei ddyfodol ac efallai gorfod symud o'r ardal.
- Bod yr ŵyl yn bennaf ar gyfer teuluoedd ac nid oes polisi oedran yn gysylltiedig â hi.
- Gan mai hon oedd yr ŵyl gyntaf i'w chynnal, disgwyliwyd rhwng 2,000 a 3,000 i'w mynychu ond 'roedd yr union nifer yn llai na 1,000 o'i gymharu â 15,000 a fynychodd Gŵyl Wakestock.
- Y cynhaliwyd cyfarfod o'r Grŵp Diogelwch Digwyddiadau oddeutu tair wythnos cyn y digwyddiad pryd y cyflwynwyd cynllun manwl o'r safle ac y cyflogwyd cwmni proffesiynol i baratoi'r cynllun.
- Ei fod yn awyddus i'r bobl a fynychodd yr ŵyl i edrych ar y brif lwyfan gan wynebu'r môr ac y byddai newid cynllun safle'r ŵyl fel y byddai'r prif lwyfannau'n taflyd y sŵn allan i gyfeiriad y môr yn fwy costus gan olygu cyflogi ychwaneg o staff diogelwch yno.
- Y cyflogwyd peiriannydd sŵn a chyfeiriodd at y sylwadau a dderbyniodd ganddo. Nododd bod y tywydd ar y nosweithiau Gwener a Sadwrn yn wyntog a'i bod felly'n anodd i recordio darlleniadau cywir y sŵn a ddeuai o'r digwyddiad. Yn ogystal 'roedd problemau i recordio sŵn oherwydd sŵn traffig o'r briffordd gerllaw. Fodd bynnag ar adegau o seibiau sŵn traffig, cymerwyd darlleniadau tu allan i'r eiddo gyferbyn â'r safle pryd y sylwyd eu bod yn cydfynd â'r safonau sŵn a osodwyd gan y Cyngor.
- Ei fod yn fodlon cydweithio â'r Cyngor i'r dyfodol parthed ceisio goresgyn y problemau sŵn a newid y cynllun safle fel y byddai'r prif lwyfannau'n taflyd y sŵn allan i gyfeiriad y môr yn hytrach nag i mewn i'r tir. Cadarnhaodd nad oes bwriad i gynnal yr ŵyl ar y Sul.
- Yr eglurwyd y polisi oedran i'r artistiaid ond ni nodwyd yn benodol bod yna embargo ar ddefnyddio iaith anweddus pan yn perfformio. Cyflogwyd tîm cyswllt artistiaid sy'n edrych ar ôl yr artistiaid pan fyddant yn ymddangos ar y llwyfan ac fe'i cynghorwyd i atal rhag defnyddio iaith anweddus pan yn perfformio. Ymddiheurodd bod hyn wedi digwydd yn ystod yr ŵyl a chadarnhaodd na fydd yn bwcio'r artistiaid hyn ar gyfer yr ŵyl nesaf.

Fel aelod lleol deilydd y drwydded, hysbysodd y Cynghorydd R.H. Wyn Williams bod hon yr ŵyl gyntaf ar y lleoliad hwn a'i fod yn gefnogol iawn iddi barhau. Cyfeiriodd at y nifer helaeth o gwynion a dderbyniwyd y tro cyntaf y cynhaliwyd Gŵyl Wakestock ond ar ôl hynny 'roedd y cwynion yn sylweddol llai. 'Roedd deilydd y drwydded yn barod i gyfaddawdu a newid cynllun safle'r ŵyl. 'Roedd yr ŵyl hefyd yn fodd o hybu economi'r ardal. Nododd bod cefnogaeth leol iddi ac mai ychydig o wrthwynebiadau a dderbyniwyd.

Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr, ac adroddodd Mr Ian Williams, Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu y derbyniwyd cwynion am 22.08, 22.48 a 22.59 ar 3 Medi 2011 gan berchennog eiddo cyfagos ynglyn â lefelau sŵn gormodol yn dod o'r dig2wyddiad. Yn dilyn y cwynion, ymwelodd swyddogion yr heddlu â chartref yr achwynydd ac hefyd Carreg y Defaid, a leolwyd rhwng safle'r digwyddiad a chartref yr achwynydd, ac ym marn yr heddlu a oedd yn bresennol, nid oedd y lefelau sŵn yn ormodol yn y lleoliad hwnnw. Cafwyd trafodaeth gyda'r person a oedd yn monitro'r lefelau sŵn ar ran y trefnwyr a hefyd gyda pherchennog yr eiddo agosaf i'r digwyddiad, pryd y cadarnhawyd bod y lefelau sŵn yn iawn ar y pryd. Nododd nad oedd yr heddlu ar ddyletswydd ar gyfer y digwyddiad hwn ac ni dderbyniwyd cais am heddlu ychwanegol oherwydd gwerthiant tocynnau isel. Fodd bynnag, 'roedd yr heddlu o gwmpas yr ardal am 24.00 pan oedd y digwyddiad yn gorffen ac iddynt gadarnhau iddo orffen yn brydlon ar yr amser hwnnw. Nododd hefyd bod materion eraill angen sylw os yw'r digwyddiad am barhau. Parthed materion trafnidiaeth a godwyd gan un o'r gwrthwynebwyr, 'roedd o'r farn gan mai un ŵyl a gynhaliwyd hyd yn hyn, bydd angen trafodaeth pellach gyda Grŵp Diogelwch Digwyddiadau Gwynedd a chyfeiriodd at amod ar y drwydded ynglyn â chydweithio a chydymffurfio gydag amodau'r grŵp hwnnw.

Tynnwyd sylw gan y Swyddog Diogelwch Bwyd at y materion canlynol –
a) Mae'n ofynnol gwneud y grisiau, giât a'r llwybr troed ar gyfer mynediad o'r cae i'r traeth yn ddiogel gan roddi mesurau mewn lle i reoli faint o bobl sy'n mynd i fyny ac i lawr y llwybr ar yr un pryd.
b) Rhaid gwahardd y gweithgaredd a adwaenir fel "Zorbing/Wowballs" rhag cael ei gynnal ar y traeth a dyfroedd agored.
c) Rhaid gwahardd gweithgareddau fel tatwio neu unrhyw ffurf arall o dyllu croen cosmetig ymhob rhan o'r safle.
ch) Mae'n ofynnol i'r trefnwyr gytuno ar ddwysedd pebyll ar y maes gwersylla, yn ogystal â'r pellter rhwng y pebyll, gydag Adran Gwarchod y Cyhoedd, a chadw at y mesuriadau a gytunwyd arnynt.
d) Rhaid i'r trefnwyr sicrhau bod pob consesiwn bwyd a diod wedi ei gofrestru gyda'r awdurdod lleol a dylid darparu'r wybodaeth berthnasol ar bob consesiwn pythefnos cyn y digwyddiad.
dd) Ni ddylid caniatau unrhyw gonsesiwn bwyd a diod ar y traeth.

Ymatebodd deilydd y drwydded i rai o'r pwyntiau a godwyd uchod sef:-

- Grisiau a llwybr troed i'r traeth – deellir y cofrestrir y llwybr yn lwybr cyhoeddus yn ystod y misoedd nesaf ond os na fyddai hyn wedi digwydd cyn yr ŵyl nesaf yna bydd angen trafodaeth pellach â'r Cyngor parthed diogelwch i'r cyhoedd a.y.
- Wowballs/zorbio – cadarnhaodd nad oes bwriad i gynnal y gweithgareddau hyn.
- Tatwio – cadarnhaodd na chaniatawyd tatwio yn ystod yr ŵyl.
- Gwersylla – cyfeiriodd at y problemau a gyfyd pan geir teuluoedd/ffrindiau angen gwersylla yn agos at eu gilydd. 'Roedd yn awyddus i gael trafodaeth pellach ar hyn yn y Grŵp Diogelwch Digwyddiadau.
- Diogelwch Bwyd – nododd ei bod yn benwythnos gwyntog iawn ac 'roedd y traeth yn ran pwysig o'r ŵyl. 'Roedd yn fodlon trafod y consesiwn bwyd a diod ymhellach â'r Cyngor.

Cynrychiolwyd Cyngor Cymuned Llanbedrog gan y Cynghorydd W. Penri Jones a nododd ei fod yn cydymdeimlo'n fawr â'r ddau achwynydd parthed y sŵn o'r ŵyl. Cyfeiriodd at dystiolaeth yr heddlu ac iddo drafod y mater gyda pherchenogion yr eiddo tros y ffordd i'r safle ac nid oedd ganddynt wrthwynebiad i'r ŵyl. Ni dderbyniodd unrhyw gwynion personol ac 'roedd canmoliaeth cyffredinol i'r ŵyl. Pwysleisiodd bod yr ŵyl yn hwb sylweddol i economi'r ardal. Nododd bod deilydd y drwydded yn fodlon cydweithio â'r Cyngor er ceisio osgoi unrhyw dor-amod i'r dyfodol ac 'roedd yn fodlon hefyd i newid cyfeiriad y pebyll fel y byddai'r sŵn o'r adloniant yn mynd i gyfeiriad y môr. Parthed yr iaith anweddus gan yr artistiaid, dylid monitro hyn yn ofalus ar gyfer y dyfodol. Cyfeiriodd at y llwybr troed i'r traeth a'r posibilrwydd o'i gofrestru fel rhan o lwybr yr arfordir yn ystod y misoedd nesaf. Os diddymir yr elfennau o adloniant rheoledig a.y. o'r

drwydded, rhagwelai y byddai'r ŵyl yn cael ei chanslo. 'Roedd o'r farn y dylid rhoddi cyfnod arbrofol pellach o flwyddyn i ddeilydd y drwydded gydymffurfio â'r amodau.

Manteisiodd y trigolion lleol a oedd yn bresennol ar y cyfle i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi'n benodol y pwyntiau canlynol –

- 'Roedd y gwrthwynebydd cyntaf yn byw oddeutu 1,000 metr o'r safle ac hefyd yr un pellter o safle Gŵyl Wakestock.
- Problemau gyda lefelau sŵn o'r safle ac nad oedd deilydd y drwydded wedi cydymffurfio â'r amodau sŵn. Cyfeiriodd at adroddiad a oedd ynghlwm â'i lythyr a baratowyd gan ymgynghorwyr sŵn.
- Yr iaith anweddus a ddaeth o'r ŵyl yn enwedig ar y nos Wener.
- 'Roedd yr ail wrthwynebydd wedi byw yn yr ardal ers 20 mlynedd.
- Na roddwyd llawer o gyhoeddusrwydd i'r ŵyl yn lleol o'i gymharu â Gŵyl Wakestock.
- Bod y lefelau sŵn o'r ŵyl hon llawer yn uwch na mewn digwyddiadau eraill cyffelyb yn yr ardal.
- Na chyfyngwyd ar gyflymder y drafnidiaeth ar y rhan hon o'r briffordd yn ystod yr ŵyl. Nododd bod cerddwyr yn cerdded ar y briffordd o safle'r ŵyl i gyfeiriad Llanbedrog yn hwyr yn y nos ac nad oedd presenoldeb gan yr heddlu.
- Na chymerwyd unrhyw gamau i reoli trafnidiaeth yn mynd a dod o'r safle.
- Ategodd sylwadau'r gwrthwynebydd cyntaf parthed diffyg cydymffurfio â'r amodau sŵn.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

**PENDERFYNWYD gwrthod y cais am adolygiad a chadw at y drwydded bresennol. Fodd bynnag, gwerthfawrogir y gwaith caled a wnaed gan Iechyd Amgylchedd (Gwarchod y Cyhoedd) a'r Uned Diogelwch Bwyd ond gan mai hon oedd yr ŵyl gyntaf ac sydd â chefnogaeth y gymuned leol, teimlir y dylai deilydd y drwydded gael ail gyfle. Derbynnir bod yna tor-amodau wedi digwydd ac y byddai tor-amodau pellach yn rhoddi dyfodol yr ŵyl yn y fantol.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 1.15pm